## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Swyddi Gwag

| Manylion y swydd: | |
|---|---|
| Sefydliad | **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** |
| Rôl | **Adolygydd Cymheiriaid sy'n Nyrs Gofrestredig neu Reolwr Llif Cleifion / Gwelyau** |
| Cyfradd cyflog | **£250 y dydd, a threuliau teithio a chynhaliaeth** |
| Hyd | **Tair blynedd** |

## Diben y swydd

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau, i dynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.

Rydym yn defnyddio adolygwyr cymheiriaid sy'n nyrsys cofrestredig ar draws ystod o'n gweithgareddau, gan gynnwys arolygu, adolygu ac ymchwilio i wasanaethau gofal iechyd annibynnol a gwasanaethau'r GIG ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Arolygiadau Ysbytai Acíwt a Chymunedol y GIG
- Arolygiadau Gofal Iechyd Annibynnol
- Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl
- Arolygiadau Gwasanaethau Anabledd Dysgu
- Ymweliadau Cofrestru Gofal Iechyd Annibynnol
- Adolygiadau Arbennig a Thematig

Rydym yn chwilio am nyrsys cofrestredig i'n cynorthwyo gyda'n Hadolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion trwy'r Llwybr Strôc. Ffocws cyffredinol yr adolygiad fydd llif cleifion, gan ganolbwyntio ar y llwybr strôc, o adeg gofyn am ambiwlans neu bobl yn hunan-gyflwyno yn yr adran argyfwng, hyd at pan fyddant yn cael eu rhyddhau o wasanaethau.

Trwy gydol yr adolygiad, byddwn yn archwilio'r canlynol:

- Profiadau pobl sy'n cael mynediad at ofal a thriniaeth ar gyfer strôc, gan ganolbwyntio ar brif agweddau ar lif cleifion, ar bob cam gofal, o asesiad hyd at ryddhau
- Yr effaith y gall llif cleifion gwael ei chael ar ganlyniadau i gleifion

Bydd hefyd yn archwilio sut mae gwasanaethau ledled Cymru yn rheoli'r canlynol:

- Y prosesau sydd ar waith ar gyfer rheoli llif cleifion trwy systemau gofal iechyd
- Taith y claf trwy'r llwybr strôc

Bydd y gwaith yn gynnwys y canlynol:

- Adolygu data cenedlaethol a lleol
- Arolygon cyhoeddus a phroffesiynol cenedlaethol
- Cyfweliadau â chynrychiolwyr byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a'r trydydd sector

- Gwaith maes sy'n canolbwyntio ar astudiaethau achos ôl-weithredol ac achosion presennol o bobl sy'n teithio trwy'r llwybr strôc, a fydd yn cynnwys y cyfnod o 12 mis cyn dechrau pandemig COVID-19, yn ystod y pandemig, ac ar adeg ein gwaith maes

Rydym yn chwilio am nyrsys cofrestredig sydd â phrofiad yn y tair blynedd diwethaf o reoli cleifion strôc trwy'r llwybr strôc (megis nyrs glinigol arbenigol strôc).

Rydym hefyd yn chwilio am nyrsys cofrestredig sydd â phrofiad presennol neu ddiweddar ym maes llif cleifion neu yn eu rôl fel rheolwr llif cleifion neu welyau neu reolwr safle.

Yn benodol, rydym yn croesawu ceisiadau gan nyrsys cofrestredig sydd ym maes ymarfer clinigol ar hyn o bryd.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau'r adolygydd cymheiriaid sy'n nyrs gofrestredig i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth, arferion a phrofiad cyfredol. Bydd hyn yn ein helpu i bwysleisio arferion da ac atgyfnerthu a rhannu ymlyniad at safonau gofal iechyd yn y GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol ar gyfer sicrwydd cyhoeddus a gwasanaethau gwell i gleifion.

## Tasgau allweddol

- Gweithio fel rhan o dîm arolygu, o dan gymorth a chyfeiriad staff AGIC.
- Teithio trwy Gymru i arolygu'r amgylchedd ffisegol, polisïau/gweithdrefnau, offer, ardystiadau, cofnodion cleifion a chofnodion eraill yng ngwasanaethau gofal iechyd.
- Ymgymryd â chyfweliadau â staff a chleifion.
- Rheoli amser yn effeithiol, gan gynnwys paratoi ar gyfer yr ymweliad arolygu trwy ddarllen adroddiadau gwybodaeth cyn arolygiad ac adroddiadau arolygu blaenorol.
- Ymateb i faterion o bryder fel y bo'n briodol ac wrth drafod â rheolwr arolygu AGIC.
- Gwneud sylwadau ac argymhellion, yn seiliedig ar eich barn glinigol a phroffesiynol eich hun, gan ystyried sail resymegol glinigol, buddiannau cleifion, a gweithrediad unrhyw reoliadau a safonau perthnasol.
- Llunio cofnodion cywir a chynhwysfawr o ganfyddiadau yn ystod yr ymweliad a chan ddefnyddio'r offerynnau arolygu, a chyfrannu at y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd.
- Adolygu a gwneud sylwadau pan fydd angen, a chyn cyhoeddi, i sicrhau cywirdeb adroddiadau arolygu.
- Cynnal ymweliadau arolygu dilynol byrrach â phwyslais penodol (yn ôl yr angen).
- Dangos parch a dealltwriaeth o ran amrywiaeth a dinasyddiaeth staff, cleifion ac eraill.
- Mynychu sesiynau sefydlu a hyfforddiant arall y mae AGIC yn ystyried sydd eu hangen.
- Gweithredu fel llysgennad i AGIC trwy hybu gwaith yr arolygiaeth a rhannu arfer gorau.

## Meini prawf penodol i'r swydd

- Cofrestriad perthnasol cyfredol â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Profiad ymarfer sylweddol o bum mlynedd o leiaf, gyda phrofiad diweddar mewn gwasanaethau strôc neu faes llif cleifion.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Profiad a dealltwriaeth dda o lywodraethu clinigol, gan gynnwys gweithrediad a gwaith monitro effeithiol o safonau clinigol a phroffesiynol.
- Profiad o brosesau rheoli risg, gan gynnwys adrodd ar ddigwyddiadau a thrin cwynion yn effeithiol.
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau.
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a gwrando ardderchog.

- Dull proffesiynol iawn sy'n canolbwyntio ar y claf, a gwerthoedd cryf o ofal diogel a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Sgiliau arsylwi, asesu a dadansoddi ardderchog.
- Y gallu i weithio'n effeithiol ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm.
- Y gallu i ddefnyddio amrediad o systemau a dyfeisiau TG yn effeithiol ac yn annibynnol.

Meini prawf dymunol

- Gweithio ym maes ymarfer clinigol ar hyn o bryd.
- Profiad o arfer nyrsio mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Tystiolaeth o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed.
- Gwybodaeth a/neu hyfforddiant cyfredol ym maes diogelu (plant ac oedolion) a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.
- Profiad blaenorol o brosesau arolygu, archwilio a/neu sicrhau ansawdd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch amcanion a blaenoriaethau AGIC.

## Cyfleoedd datblygu

Bydd adolygwyr cymheiriaid allanol yn ennill profiad o arolygu ac adolygu a byddant yn gwella eu sgiliau dadansoddol, drafftio, gweithio fel tîm, a chyfathrebu.

Mae gweithio gydag AGIC yn cynnig y cyfle i adolygwyr cymheiriaid drosglwyddo arferion da yn ôl i'w meysydd gwaith eu hunain.

Bydd diwrnodau sefydlu a/neu hyfforddiant a gynigir i adolygwyr cymheiriaid yn cael eu dynodi'n ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

## Y Gymraeg

Mae AGIC yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu ei gweithlu dwyieithog ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bydd adolygwyr cymheiriaid sy'n nyrsys cofrestredig yn destun gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Patrwm gweithio

Rhoddir cytundeb fframwaith i adolygwyr cymheiriaid sy'n nyrsys cofrestredig i ddarparu gwasanaethau ar sail hyblyg, i gynnwys gwaith y tu allan i oriau. Dan y trefniant hwn, nid yw AGIC dan unrhyw orfodaeth i roi unrhyw aseiniadau ac nid yw adolygwyr cymheiriaid sy'n nyrsys cofrestredig dan unrhyw orfodaeth i dderbyn aseiniadau. Bydd AGIC yn rhoi aseiniadau pan fydd angen gwasanaethau.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Arolygu yn AGIC drwy e-bost HIW.Inspections@gov.wales neu ffonio 0300 062 8163.

## Sut i wneud cais

Cwblhewch y ffurflen gais ar gyfer adolygwyr cymheiriaid sy'n nyrsys cofrestredig sydd ar gael ar y wefan Adolygydd Cymheiriaid sy'n Nyrs Gofrestredig | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk) a'i chyflwyno i HIW.Inspections@gov.wales dros e-bost.

Os oes angen y ffurflen gais arnoch mewn fformat neu iaith wahanol, cysylltwch â ni:

✉: HIW.Inspections@gov.wales
☎: 0300 062 8163